


Freshwater East

Teithiau Byr



GRADDFA: 0 200 400 m


PELLTER: FRESHWATER EAST, Y TRAETH - 0.9 milltir (1.4 km)
FRESHWATER EAST, Y TWYNI - 0.7 milltir (1.2 km)
FRESHWATER EAST, DYFFRYN LEACH - 0.5 milltir (0.8 km)
CLUDIANT CYHOEDDUS: * Coastal Cruiser (*galw a teithio)

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Lwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiâu

ALLWEDD

- Freshwater East, Y Traeth
- Freshwater East, Y Twyni
- Freshwater East, Dyffryn Leach
- Llwyr Arfordir Sir Benfro
Llwyr Cenedlaethol
- - - Llwbrau Cyhoeddus
- P Maes Parcïo
- WC Toiledau Cyhoeddus
- Bus Safle Bws



Freshwater East

Teithiau Byr

Cludiant cyhoeddus: *Coastal Cruiser (*galw a teithio)

Freshwater East, Y Traeth

Pellter: 0.9 milltir (1.4 km)

Cyfeirnod map: SS021981

Cymeriad: wyni tywod a thraeth.

Dim sticlau. Grisiau byr, tywod.

Gadewch y maes parcio ar y pen sydd agosaf at y traeth a chroeswch yr heol. Cerddwch tuag at y traeth am ychydig lathenni, yna trowch i'r chwith arno i'r trac tuag at y giât. Ewch drwy'r giât a dilynwch Lwybr yr Arfordir trwy dwyni, trwy giât arall, gan barhau yn syth ymlaen. Dilynwch y llwybr at fan gwyllo, yna i lawr y tyle trwy'r coed. Ar ddiwedd y coed, trowch i'r dde tuag at y traeth, yna trowch i'r dde ar waelod y grisiau a cherddwch yn ôl ar hyd y traeth hyd nes cyrraedd nant. Trowch i'r dde arno i'r llwybr concrit a chroeswch yr heol yn ôl i'r maes parcio.

Freshwater East, Y Twyni

Pellter: 0.7 milltir (1.2 km)

Cyfeirnod mpa: SS018980

Cymeriad: Llwybrau naturiol dros y twyni tywod.

Dim sticlau. Arwynebau tywodlyd, graddiannau serth

Cymerwch y trac i lawr y tyle wrth y mynegbost drws nesaf i Freshwater Inn. Parhewch i lawr y trac at ddau fynegbost. Anwybyddwch y mynegbost cyntaf a throwch i'r dde wrth yr ail un ar hyd llwybr glaswelltog, sy'n troi'n dywodlyd. Wrth y mynegbost trowch i'r dde arno i Lwybr yr Arfordir a pharhewch yn syth ymlaen wrth y mynegbost nesaf. Ar y gwaelod, ewch drwy'r giât a throwch i'r dde i fyny'r tyle, yna wrth

y mynegbost, ger byngalo gwyn, trowch i'r dde. Dilynwch y prif drac, trwy giât i'r chwith o'r ardd, a pharhewch i fyny'r tyle, gan anwybyddu'r llwybrau i'r chwith a'r dde. Wedi cyrraedd y trac tarmac, trowch i'r chwith wrth y mynegbost a dilynwch y trac i fyny'r tyle yn ôl i'r man cychwyn.



Freshwater East, Dyffryn Leach

Pellter: 0.5 milltir (0.8 km)

Cyfeirnod map: SS023981

Cymeriad: Caeau ag anifeiliaid, twyni tywod, golygfeydd o'r môr, graddiannau.

Dim sticlau. Grisiau, graddiannau serth.

Trowch i'r chwith allan o'r maes parcio arno i'r heol a throwch i'r chwith wrth y mynegbost 'i Lwybr yr Arfordir'. Dilynwch y trac i lawr y tyle at y mynegbost wrth arwydd Parc Coffa Leach. Gadewch y trac a dilynwch y llwybr troed i lawr y tyle. Wrth y mynegbost trowch i'r chwith arno i Lwybr yr Arfordir, gan ei ddilyn i fyny'r grisiau, yna trowch i'r chwith ychydig bach cyn y sticil. Dilynwch y llwybr, sy'n dod yn goncrit, yn ôl i'r maes parcio.